national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Ar Dir Cyffredin
On Common Ground

www.oncommonground.co.uk

Adfywiad Carnifal Cymuned

Daeth yn amlwg yn ystod cynhadledd ieuenctid lleol a gynhaliwyd yn 2003 bod pobl ifainc Eastside, Abertawe yn teimlo eu bod yn rhan o gymuned. Un o'r rhesymau dros hyn oedd y ffaith eu bod wedi clywed hanesion am yr 'hen ddyddiau' ac yn arbennig, hen garnifalau cymuned.

Yn 2005 ffurfiwyd Pwyllgor Carnifal er mwyn adfywio'r carnifal cymuned - y cyntaf ers dros 30 mlynedd. Roedd grŵp o bobl ifainc yn awyddus i brofi a chofnodi pob agwedd o'r carnifal ar ffilm at y dyfodol. Aeth y bobl ifainc hyn ati i ymchwilio i ddeunyddiau archifol o ddechrau'r 1900au hyd at ganol y 1970au, a chyfweld aelodau hŷn y gymuned er mwyn deall carnifalau'n well a datblygu eu project ymhellach. Mynychodd y grŵp weithdai hyfforddiant ffilm, a gynhaliwyd gan Arts for Us, cyn cynhyrchu DVD y gall aelodau'r gymuned bresennol a chymunedau'r dyfodol ei mwynhau.





The Revival of a Community Carnival

It emerged from a local youth conference held in 2003 that young people living in the Eastside of Swansea held a strong sense of community. This was partly due to them having listened to tales of 'days gone by' and in particular of old community carnivals.

In 2005 a Carnival Committee was formed in order to revive the community carnival - the first in over 30 years. A group of local young people wanted to experience and capture all aspects of the carnival on film for posterity. These young people researched archival material on welsh carnivals from the early 1900s to the mid 1970s and interviewed older community members in order to get a better understanding of carnivals and to develop their project further. The group attended film training workshops, delivered by Arts for Us, and produced a DVD to be enjoyed by all community members now and in the future.

Cyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Supported by the Heritage Lottery Fund
E.C.T.

www.museumwales.ac.uk
www.amgueddfacymru.ac.uk